# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 20 Mehefin 2012** |
| Amser: | **10:00 - 12:30** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_20_06_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Lynne Neagle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Gareth Griffiths, Llywodraeth Cymru**<br>**Chris Humphreys, Llywodraeth Cymru**<br>**Steve Milsom, Llywodraeth Cymru**<br>**David Worthington, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar a Lindsay Whittle. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 2. Trafodaeth ar y flaenraglen waith - hydref

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad polisi byr i strategaeth yn y dyfodol ar gyfer diabetes yng Nghymru yn nhymor yr hydref, i'w amserlennu o amgylch ei ymrwymiadau craffu deddfwriaethol a chyllidebol.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai ei ymchwiliad polisi tymor hwy nesaf yn canolbwyntio ar werthusiad o dechnoleg feddygol. Cytunodd y Pwyllgor y byddai amseriad y broses o gasglu tystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn dibynnu ar raglen graffu ddeddfwriaethol y Pwyllgor.

2.3 Gwnaeth y Pwyllgor gais i'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer y ddau ymchwiliad polisi gael eu paratoi gan yr ysgrifenyddiaeth fel y gellir cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus dros doriad yr haf.

2.4 Cytunodd y Pwyllgor i drefnu sesiwn gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i drafod ei adroddiad blynyddol yn nhymor yr hydref.

## 3. Ymchwiliad i ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn - Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.1 Atebodd y Dirprwy Weinidog a swyddogion y cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor am ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn.

3.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am sut mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ymgynghori â'r undebau llafur fel rhan o'i chynllun i foderneiddio'r broses reoleiddio ac arolygu, ac i ofyn i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ddarparu gwybodaeth am dargedau Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o ragor o gyfleusterau gofal fel ffordd o ateb anghenion pobl hŷn.

## 4. Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) : Cyfnod 1 - Sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Cadeirydd i egluro pam mae'r manylion ynghylch yr hysbysiadau cost benodedig wedi'u cynnwys yn y Bil a pham nad yw'r esemptiadau posibl i'r cynllun wedi'u cynnwys ar y cam hwn.

## 5. Papurau i'w nodi

**P-03-295: Kyle Beere - Gwasanaethau Niwroadsefydlu Paediatrig**

5.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd nad oedd ei amserlen yn caniatáu ystyriaeth ddi-oed o wasanaethau niwroadsefydlu paediatrig, ond y byddai'n eu hystyried fel pwnc posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

**Llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru - Confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl hŷn**

5.2 Trafododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i drafod y mater gyda'r Comisiynydd yn nhymor yr hydref, yn ystod y sesiwn ddisgwyliedig ar adroddiad blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.